# A STATEMENT ON NATURAL BEAUTY

## Purpose of a statement on natural beauty in Wales

Natural beauty as a concept emerged in the 19th and the first half of the 20th century, and was used mainly to reflect the value attached to the aesthetic and scenic aspects of landscape. In Welsh this broadly equates to the concept of 'Tirlun'. Over the years since the original concept of 'natural beauty' emerged, a number of important socio-economic and land use changes have occurred, as well as significant changes in the policy context.

Although the term natural beauty is widely used, due to the lack of legal definition it has been open to a number of different interpretations. The whole concept of natural beauty is currently under debate, as a result of the new designations in England and in particular due a recent legal challenge resulting in the so called 'Meyrick Judgement', which returned to a highly literal definition of natural beauty. The Natural England and Rural Communities (NERC) Act seeks to address the issues raised by this judgement and provides a framework for the application of the term natural beauty but does not present a formal definition.

The National Parks Review in Wales in 2003-4 undertaken by Land Use Consultants for the Welsh Assembly Government (WAG), concluded that the concept of natural beauty was: *"not well understood by all those who take decisions affecting National Parks. There is a need, therefore, for a statement describing the full scope and reach of the first purpose"*. In the Review Action Plan The Countryside Council for Wales (CCW) was charged with progressing a number of different actions, including Recommendation 26 which requests CCW to "*produce a statement on the full scope of 'natural beauty' in the first purpose including the protection of natural resources, important perceptual qualities of landscape and the breadth of cultural influences."*

CCW commissioned Professors Selman and Swanwick at the University of Sheffield to research and compile information relating to natural beauty, and out of this process to draft a statement on natural beauty. This draft statement was issued by CCW for consultation in January 2006. Following comments from consultees and building on the emerging consensus the statement was further refined through a stakeholder workshop held in February 2006.

As a result of this process of research, consultation and engagement, the following revised statement on natural beauty has emerged. The statement is in two parts, with the first part seeking to provide clarification on the full scope of natural beauty and the second part providing a list of key elements which in combination make up natural beauty in support of the statement. It is a resource based approach which relates to the Welsh concept of 'tirwedd' and reflects the definition of landscape as defined in the European Landscape Convention. Ultimately as a statutory term used in legislation, any definition of natural beauty will be open to legal interpretation. However this collaborative work resulting in the statement aims to contribute towards a shared understanding of how this legal term is applied, and provide clarification for partners and to enhance their understanding of the purposes of protected landscapes. The revised statement was endorsed by CCW Council on 8th May 2006 and is presented for consideration by The Welsh Assembly Government.

## A STATEMENT ON "NATURAL BEAUTY"

**"Natural beauty", when used both generally and specifically as in the 1949 National Parks and Access to the Countryside Act and other legislation, is a complex and multifaceted concept that is concerned with landscape in its broadest sense[1]. It relates primarily to unspoiled, but not necessarily extensive, rural landscapes that are largely free from the effects of disfiguring development or urbanisation[2]. Although the legislation makes clear that it includes flora, fauna, geological and physiographic features, it applies not only to landscapes where nature is dominant but also to those which have been shaped and nurtured by human activities[3]. People perceive and appreciate "natural beauty" through all their senses, responding to many different aspects of the landscape, including its distinctive character[4], its aesthetic qualities, the presence of wildlife, its cultural and historical dimensions and its perceptual qualities such as, for example, tranquillity, remoteness and a sense of freedom[5]. Perceptions of, and preferences for "natural beauty" are informed by people's personal characteristics, cultural backgrounds and individual interests. "Natural beauty" occurs, to varying degrees, in many, though by no means all landscapes. Some places may, however, be judged to display "natural beauty" to an outstanding degree and may as a result be recognised as warranting a national level of protection.[6]**

### Explanatory Notes

1. Landscape is broadly defined as; the interaction between the physical (geology, landform, air and climate), natural (soils, flora and fauna), and cultural/social (land use, enclosure, settlement) components of our environment and the way this is perceived and interpreted by people, both visually, in terms of aesthetic aspects like colour, form, texture and pattern, and by other senses, and also through individual perceptions and preferences, which are affected by people's cultural backgrounds and interests. "Natural beauty" therefore embraces all of these components and aspects of landscape;

2. There are no truly 'natural' landscapes in the British Isles, but there is a spectrum of degrees of relative naturalness. "Natural beauty" in the British context means predominantly rural landscapes that have been shaped and will be shaped by the interaction of nature and human management over centuries and may include, for example, farmland, fields and field boundaries, designed parkland, small settlements, larger villages and small towns, provided that they are integral to and in keeping with, the character of the landscape (see Note 4);

3. The human activities that have shaped landscapes are many and varied. The concept of "natural beauty" does not, for example, automatically exclude the remains of small scale industrial activity which may in some cases be an important historic or cultural asset in its own right and make a significant contribution to landscape character;

4. “Natural beauty” is related to and to some degree a reflection of landscape character, in that it will often find expression in areas of landscape which have a distinct character and a strong and recognisable sense of place. Landscape character is, however, found everywhere whereas "natural beauty" is not and is a quality found particularly in valued landscapes;

5. The perceptual aspects of “natural beauty” will vary according to the character of the landscape. For example, tranquillity, remoteness and a sense of freedom may be experienced in wild upland landscapes but not in more settled landscapes with farms, villages and small towns, which may instead have a sense of timelessness and of a long working together of people and nature.

6. The identification of landscapes of outstanding “natural beauty” requires careful thought about why some landscapes are valued more than others. In the 19th and the first half of the 20th centuries, when landscape was still viewed largely as a static scene or picture, “natural beauty” was synonymous with scenery. It reflected the value attached to the aesthetic and scenic aspects of landscape and their spiritual and emotional effects on people. Times have now changed and so have cultural interpretations of landscape. The aesthetic and perceptual values attached to landscape, though still important, are only one of the reasons why landscape is valued today. Today judgements about “natural beauty” are really the same as judgements about landscape value, which in turn requires consideration of the different reasons why society may attach value to particular places. Defining areas of particular “natural beauty” is a matter of judgement, based on the use of professional trained eyes, but also drawing on informed consensus, including an understanding wherever possible of public perceptions. Drawing on both English and Welsh sources the criteria that can be taken into account in defining landscape value and hence defining landscapes which have outstanding “natural beauty” include some of the following:

   - Scenic quality, in terms of the aesthetic aspects of landscape (those which give pleasure to the senses), its perceptual dimensions and the spiritual or emotional impact that both have on people. There should be a consensus of opinion about the beauty of the landscape, among both experts and the public;

   - Sense of place, in terms of unity and distinctiveness of landscape character;

   - Landscape quality, in terms of the intactness of the landscape and its condition, in so far as this helps to deliver distinctiveness of landscape character in a particular locality;

   - Integrity, in terms of intact rural character and general lack of large-scale, visually intrusive or otherwise inharmonious development;

   - Perceptual qualities which make a particular contribution to sense of place, including wildness and tranquillity;

- Important associations of the landscape with people, places or events relevant to a particular place;

- Evidence of importance through expressions or descriptions of the landscape in art, literature, music and other art forms, through language and folklore, and through modern media;

- Rarity or representativeness, either of the landscape as a whole, or of individual elements and features within it;

- Conservation interest, through the presence of features of particular wildlife, earth science or archaeological, historical and cultural interest which add value to the landscape as well as having conservation value in their own right.

Countryside Council for Wales
May 2006

**DATGANIAD AR BRYDFERTHWCH NATURIOL**

**Amcan datganid ar brydferthwch naturiol yng Nghymru.**

Ymddangosodd prydferthwch naturiol fel cysyniad yn 19C a hanner cyntaf y 20C, a'i ddefnyddio gan fwyaf i ddisgrifio'r gwerth esthetig a thirlunol y dirwedd ac, yn wir, yn y Gymraeg mae hyn yn gyfystyr yn fras â'r cysyniad 'Tirlun'. Dros y blynyddoedd, ers i'r cysyniad gwreiddiol ymddangos bu nifer o newidiadau pwysig yn yr economi, mewn defnydd tir yn ogystal â newidiadau o fewn y cyd-destun polisi.

Er bod cryn ddefnydd o'r term prydferthwch naturiol, gan nad oes iddo ddiffiniad cyfreithiol, bu'n agored i aml i ddehongliad. Y mae'r holl gysyniad o brydferthwch naturiol o dan y chwyddwydr yn dilyn dynodiadau newydd yn Lloegr a hefyd, yn benodol, drwy her gyfreithiol o dan 'Dyfarniad Meyrick' - dyfarniad llythrennol dros ben o brydferthwch naturiol. Y mae Deddf 'Naural England and Rural Communities' (NERC) yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y dyfarniad drwy greu fframwaith i ddefnydd y term prydferthwch naturiol ond nid yw'n cynnig diffiniad ffurfiol.

Gwnaethpwyd Adolygiad Parciau Cenedlaethol Cymru 2003 - 2004, gan Land Use Consultants ar ran Llywodraeth y Cynulliad (LlyC), a'r farn yno oedd bod cysyniad prydferthwch naturiol "*heb ei ddeall yn iawn gan y sawl sydd yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar Barciau Cenedlaethol. Y mae angen , felly, am ddatganiad i ddisgrifio ystod a chyrhaeddiad y pwrpas cyntaf.*" Yng Nghynllun Gweithredu'r Adolygiad gofynnwyd CCG i weithredu ar nifer o bwyntiau gan gynnwys Argymhelliad 26 sydd yn gofyn i CCG *"i ffurfio datganiad ar ystod lawn*

*'prydferthwch naturiol' yn y pwrpas cyntaf gan gynnwys diogelu adnoddau naturiol, gwerthoedd canfyddiad o dirwedd ac ehangder dylanwadau diwylliannol."*

Comisiynwyd y ddau Athro, Selman a Swanwick o Brifysgol Sheffield i ymchwilio a chasglu gwybodaeth yn berthnasol i brydferthwch naturiol, ac yn deillio o'r broses yna, i fynd ati i lunio datganiad drafft ar brydferthwch naturiol. Dosbarthwyd y drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr 2006 gan CCG. Yn dilyn sylwadau ac yn adeiladu ar y consensws oedd yn ffurfio, bu fwy o hogi ar y datganiad mewn cynhadledd i rhan-ddeiliad ym mis Chwefror 2006.

Fel canlyniad i'r broses hon o ymchwilio, ymgynghori ac ymgyfranogi, lluniwyd y datganiad sydd yn dilyn. Y mae'r datganiad mewn dau ran, gyda'r rhan gyntaf yn ceisio cynnig eglurhad a'r ystod eang y term prydferthwch naturiol a'r ail ran yn cynnig rhestri o'r elfennau allweddol sydd, gyda'i gilydd, yn sail i brydferthwch naturiol. Edrychir ar y term o ochr adnoddau ac mae'n cysylltu â'r term Cymraeg 'tirwedd' sydd hefyd yn adleisio'r dirwedd fel y'i diffinnir yn y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd. Yn y pen draw, fel term statudol o fewn cyfraith gwlad, bydd unrhyw ddiffiniad o brydferthwch naturiol yn agored i ddehongliad cyfreithiol. Er hynny , bydd y cydweithio sydd wedi arwain at y datganiad yn cyfrannu tuag at ennill deall-ar-cyd ar sut i weithredu'r term cyfreithiol gan gynnig eglurhad i bartneriaid a gwella eu dealltwriaeth o amcanion tiroedd dynodedig. Cadarnhawyd y datganiad diwygiedig gan Gyngor CCG ar Fai 8fed 2006 ac fe'i cyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## DATGANIAD AR HARDDWCH NATURIOL

**Mae "Harddwch naturiol", pan fydd yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr cyffredinol a phenodol, fel yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, ac mewn deddfwriaeth arall, yn gysyniad cymhleth ac amlweddog sy'n ymdrin â thirwedd yn ei ystyr ehangaf[1]. Mae'n cyfeirio'n bennaf, ond nid yn unig, at dirwedd estynedig yng nghefn gwlad lle nad oes effeithiau datblygiad niweidiol a threfoli i'w gweld.**

**Er bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n glir bod y cysyniad yn cynnwys, planhigion ac anifeiliad daeareg a ffisiograffeg, mae'n cyfeirio nid yn unig at dirweddau lle mae byd natur yn arglwyddiaethu ond hefyd at dirweddau a gafodd eu siapio a'u meithrin gan weithgareddau dyn[3]. Mae pobl yn defnyddio'u holl synhwyrau i ganfod ac i werthfawrogi "harddwch naturiol". Maen nhw'n ymateb i nifer o wahanol agweddau ar y tirwedd, gan gynnwys hynodrwydd ei gymeriad[4], ei nodweddion estheteg, presenoldeb bywyd gwyllt, y dimensiwn diwylliannol a hanesyddol a nodweddion, ymdeimladol megis llonyddwch, cael bod yn ymhell o phawb a phobeth a chael bod yn rhydd[5]. Cymeriad, cefndir diwylliannol a diddordebau unigol sy'n dylanwadu ar ganfyddiadau a dewisiadau pobl mewn perthynas â harddwch naturiol. Mae "harddwch naturiol" i'w weld, i wahanol raddau, mewn nifer fawr, ond nid y cyfan o bell ffordd, o dirweddau. Ond gellir ystyried bod rhai lleoedd yn arddangos "harddwch naturiol" eithriadol a'u bod, o'r herwydd, yn haeddu cael eu gwarchod yn genedlaethol[6].**

**Nodiadau esboniadol**

1. Diffinnir tirwedd yn fras fel; y rhyngweithiad rhwng elfennau'r amgylchedd sy'n ffisegol (daeareg, tirffurf a hinsawdd), naturiol (pridd, fflora a ffawna) a diwylliannol, cymdeithasol (defnydd tir, patrwm caeau, anheddiad) a'r modd y mae hwn yn cael ei ganfod a'i ddehongli gan bobl, boed yn weledol drwy agweddau estheteg fel lliw, ffurf, ansawdd/gwead a phatrwm neu drwy synhwyrau eraill a hefyd drwy ganfyddiadau a dewisiadau unigol sy'n cael eu dylanwadu gan gefndir diwylliannol a diddordebau pobl. Mae "harddwch naturiol" felly yn cwmpasu'r holl elfennau a'r agweddau hyn o'r tirwedd.

2. Nid oes unrhyw dirwedd gwirioneddol 'naturiol' i'w cael o fewn Ynysoedd Prydain ond ceir ystod o dirweddau sy'n naturiol i wahanol raddau, o'u cymharu â'i gilydd. Mewn cyd-destun Prydeinig mae "harddwch naturiol" yn golygu tirweddau gwledig yn bennaf, sydd wedi cael eu siapio gan ryngweithiad rhwng natur a rheolaeth tir dros y canrifoedd. Gall y tirweddau hyn gynnwys, er enghraifft, tir fferm, caeau a therfynau, parciau a ddylunwyd anheddau bychain, pentrefi mwy a threfi bychain, cyn belled â'u bod nhw'n rhan gynhenid o gymeriad y tirwedd ac yn cyfrannu ato (gweler nodyn 4).

3. Mae'r gweithgareddau dynol sydd wedi siapio tirweddau yn niferus ac yn amrywiol. Er enghraifft, nid yw'n wir, yn awtomatig, bod y cysyniad o "harddwch naturiol", yn eithrio gweddillion gweithgaredd diwydiannol ar raddfa fechan - gall y rhain weithiau fod yn ased hanesyddol neu ddiwylliannol a chyfrannu yn arwyddocaol at gymeriad tirwedd.

4. Mae "harddwch naturiol" yn perthyn i, ac i raddau yn adlewyrchu cymeriad tirwedd, gan ei fod yn aml yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag ardaloedd o dirwedd sydd â chymeriad hynod ac ymdeimlad cryf ac amlwg o lle. Ond mae cymeriad tirlun i'w ganfod ym mhob man - ni ellir dweud yr un peth am "harddwch naturiol". Mae'n nodwedd sy'n cael ei amlygu mewn tirweddau penodol o ansawdd cydnabyddedig.

5. Bydd yr agweddau hynny o "harddwch naturiol" sy'n ymwneud â chanfyddiadau, yn amrywio o le i le, yn ôl cymeriad y tirwedd. Er enghraifft, gellir profi llonyddwch, cael bod yn bell o phawb a phobeth a bod yn rhydd mewn tiroedd anystywallt yn yr ucheldir ond nid o fewn tirweddau sydd â nifer o anheddau fel ffermydd, pentrefi a threfi bychain. Yn y mannau hyn, synhwyrir efallai rhyw deimlad o barhad ac o hanes hir o gydweithio rhwng pobl a byd natur.

6. Rhaid meddwl yn ofalus ynglŷn â pham y mae rhai tirweddau yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy na rhai eraill wrth geisio adnabod tirweddau sydd â "harddwch naturiol" eithriadol. Yn y 19eg a'r 20fed G, pan oedd tirwedd yn dal i gael ei ystyried fel golygfa ddigyfnewid neu ddarlun, roedd "harddwch naturiol" yn gyfystyr â 'golygfa'. Roedd yn adlewyrchu'r gwerth a roddai pobl ar agweddau estheteg a golygfaol tirwedd ac ar effaith ysbrydol ac emosiynol yr agweddau hyn ar bobl. Gyda threigl amser, mae dehongliadau diwylliannol o dirwedd wedi newid. Er bod y gwerth estheteg a chanfyddiadol a gysylltir gyda thirwedd yn dal i fod yn bwysig, mae rhesymau eraill, erbyn heddiw, yn cyfrif am y gwerth a roddir ar dirweddau. Bellach, pan fynegir barn am "harddwch naturiol", mae'n farn ynglŷn â

gwerth tirwedd; yn ei dro, mae hyn yn gofyn am ystyried y gwahanol resymau sy'n gyfrifol am y gwerth y mae cymdeithas yn ei osod ar leoedd arbennig . Mater o farn yw diffinio ardaloedd gyda "harddwch naturiol" - barn sy'n seiliedig ar lygad broffesiynol, ond sy'n tynnu hefyd ar gonsensws gwybodus ynghylch y pwnc ac sy'n cynnwys dealltwriaeth o ganfyddiadau'r cyhoedd lle bynnag y bo hynny'n bosib. Gan dynnu ar ffynonellau Cymreig a Seisnig, gellir rhestru'r meini prawf ar gyfer diffinio gwerth tirwedd, ac felly ar gyfer diffinio tirweddau gyda "harddwch naturiol" eithriadol fel a ganlyn (heb fod mewn unrhyw drefn benodol):

- Priodweddau golygfaol, o safbwynt agweddau estheteg y tirwedd (yr agweddau hynny sy'n rhoi pleser i'r synhwyrau), y dimensiwn ymdeimladol a'r effaith ysbrydol ac emosiynol y mae'r ddau beth yma yn ei gael ar bobl. Dylai fod consensws barn ynglŷn â harddwch tirwedd ymhlith arbenigwyr a'r cyhoedd;

- Ymdeimlad o le, o safbwynt undod a hynodrwydd cymeriad y tirwedd;

- Ansawdd y tirwedd, o ran cyfanrwydd a chyflwr y tirwedd, i'r graddau y mae hyn yn helpu sicrhau hynodrwydd cymeriad tirwedd mewn unrhyw fan.

- Cyfanrwydd, yn nhermau cyflwr y cymeriad gwledig ac absenoldeb cyffredinol unrhyw ddatblygiadau mawr sy'n tarfu ar y tirwedd neu sydd, fel arall, yn anghymarus.

- Priodweddau canfyddiadol sy'n cyfrannu mewn ffordd arbennig at ymdeimlad o le, gan gynnwys natur wyllt a llonyddwch;

- Cysylltiadau pwysig rhwng y tirwedd a phobl, lleoedd neu ddigwyddiadau sy'n berthnasol i fan arbennig;

- Tystiolaeth o bwysigrwydd y tirwedd drwy gyfeiriadau neu ddisgrifiadau mewn celf, llenyddiaeth, cerddoriaeth neu ffurfiau celfyddydol eraill, drwy iaith a llen gwerin a thrwy gyfryngau cyfoes;

- Pa mor brin, neu gynrychioliadol yw'r tirwedd, un ai yn ei gyfanrwydd neu elfennau ohono a nodweddion oddi fewn iddo;

- Diddordeb cadwraethol, boed yn fywyd gwyllt , gwyddor daear, archeoleg neu'n ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol, sydd yn ychwanegu gwerth at y tirwedd yn ogystal â bod yn gynhenid werthfawr o safbwynt cadwraeth.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Mai 2006